Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

Canllaw i Ymarferwyr sy'n Gweithio mewn Gwasanaethau Eiriolaeth yng Nghymru

Rhagfyr 2010

75% wedi'i ailgylchu
recycled

ISBN 978 0 7504 5974 7
© Hawlfraint y Goron 2011
WAG10-11196
F1141011

Cynnwys

Tudalen

Beth yw Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth? 4

Goblygiadau ASD i Wasanaethau Eiriolaeth 4

Beth yw Eiriolaeth a Mathau o Eiriolaeth 5

Pam y byddai ar Bobl sydd ag ASD angen Eiriolaeth 11

Eiriolaeth Lwyddiannus mewn ASD: Rhwystrau ac Atebion 14

Beth mae angen i'r eiriolwr ei wybod am y sbectrwm awtistiaeth 15

Cysylltiadau Defnyddiol ac Adnoddau 17

Awduron 18

Beth yw Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth?

Mae awtistiaeth yn anhwylder sy'n para drwy gydol oes ac mae'n effeithio'n aml ar dri phrif faes datblygiadol:

- Dealltwriaeth gymdeithasol; y gallu i ddeall meddyliau, teimladau ac ymddygiad pobl eraill.
- Cyfathrebu cymdeithasol; y gallu i ddeall a defnyddio llawer o ddulliau cyfathrebu, gan gynnwys iaith, iaith y corff, ystumiau, mynegiant wyneb, goslef a thraw y llais.
- Gallu i feddwl a gweithredu'n hyblyg; mae hyn yn cael ei ddisgrifio weithiau fel amhariad ar ddychymyg cymdeithasol, ac mae'n effeithio ar y gallu i weithredu'n ddigymell a rhoi cynnig ar brofiadau newydd. Mae'n tueddu i olygu bod pobl sydd ag awtistiaeth yn ddibynnol iawn ar drefniadau rheolaidd a'u bod yn gyndyn o dderbyn newidiadau. Gall hyn amharu hefyd ar ddatblygiad chwarae.

Rydym yn meddwl am awtistiaeth fel cyflwr sbectrwm, gan ei fod yn ymgorffori ystod mor eang o gryfderau, sgiliau ac anghenion. Mae'n bosib y bydd gan rai pobl sydd ag awtistiaeth anabledd dysgu ychwanegol; bydd gan eraill lefelau deallusrwydd arferol neu uwch na'r arferol. Efallai y bydd gan rai gyflyrau iechyd meddwl ychwanegol ac mae gorbryder yn aml yn anhawster penodol. Yn ychwanegol at hyn, mae gan lawer o bobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth rai gwahaniaethau sy'n ymwneud â chanfyddiad synhwyraidd a phrosesu synhwyraidd.

Goblygiadau ASD i Wasanaethau Eiriolaeth

Mae mwy a mwy o sefydliadau'n darparu eiriolaeth i bobl sydd ag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl, ac mae llawer o bobl awtistig yn defnyddio'r gwasanaethau hyn. Er hyn, mae'n bwysig sylweddoli bod gan y sbectrwm awtistig nodweddion penodol sy'n galw am gefnogaeth eiriolwr sydd wedi cael hyfforddiant a phrofiad o weithio gyda phobl ar y sbectrwm awtistiaeth.

Efallai ei bod yn amlwg y byddai o fudd i rywun nad yw'n gallu cyfathrebu llawer ar lafar gael cymorth eiriolwr. Ar y llaw arall,

mae'n bosib y byddai'n ymddangos bod rhywun sydd ag ASD a sgiliau llafar da'n gallu cyfathrebu ei anghenion yn annibynnol ac, o ganlyniad, na fyddai'n cael cynnig gwasanaeth eiriolaeth. Fodd bynnag, dengys tystiolaeth nad yw sgiliau cyfathrebu mynegiannol da yn cyfateb i ddealltwriaeth mewn awtistiaeth. Mae pobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth yn tueddu i ddefnyddio iaith yn llythrennol ac er mwyn cyfleu gwybodaeth ffeithiol. Mae amhariad ar y gallu i ddefnyddio iaith i ddisgrifio emosiynau, teimladau, anghenion neu bryderon, ac ar y gallu i gael amcan o'r hyn y mae pobl eraill yn ei wybod yn barod, beth mae angen iddynt ei wybod a beth i'w ddweud wrthynt. Efallai na fydd yn amlwg ar unwaith bod awtistiaeth yn achosi anawsterau gwirioneddol, ond mae'n bosib y bydd ar unrhyw berson sydd â diagnosis o awtistiaeth, beth bynnag ei allu deallusol, angen cymorth eiriolwr.

Beth yw Eiriolaeth?

Mae eiriolaeth yn golygu gweithredu er mwyn helpu pobl agored i niwed i ddweud beth mae arnynt ei eisiau, sicrhau eu hawliau, mynegi eu buddiannau a chael y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.

Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn disgrifio eiriolaeth fel:

> "Proses o gynorthwyo a galluogi pobl i fynegi eu barn".

Eiriolwr yw rhywun sy'n gwrando ac yn helpu unigolyn i gael ei glywed, ac i benderfynu beth i'w wneud, sydd yno i'r person dan sylw ac sydd ar yr un ochr ag ef. Nid yw eiriolwr fel arfer yn rhan o'r gwasanaethau cymdeithasol nac o ddarparwr gwasanaeth yr unigolyn, ac nid yw'n cymryd lle teulu a ffrindiau.

Mathau o Eiriolaeth

Mae gwahanol fathau o sefydliadau'n cynnig eiriolaeth, ac mae gwahanol fathau o eiriolaeth i'w cael. Mae'n bwysig mynd at sefydliad sy'n cynnig y math priodol o eiriolaeth, a chofio y gallai unigolion sydd ag awtistiaeth fod angen gwahanol fathau o eiriolaeth mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ar adegau gwahanol o'u hoes.

Hunan Eiriolaeth

Yn cynorthwyo'r unigolyn i gyfathrebu ei ddymuniadau a'i farn ei hun.

Mae'n bwysig canfod yn gynnar yn y berthynas eiriolaeth i ba raddau y mae'r unigolyn yn gallu cynrychioli ei hun a faint o ddiddordeb sydd ganddo mewn gwneud hynny. Er mwyn cryfhau'r sgiliau a lleihau pryder, gall ffrindiau a chefnogwyr baratoi unigolion drwy ddefnyddio senarios chwarae rôl i ddysgu am gyfarfodydd, neu ymweld â lleoliadau ac ystafelloedd cyfarfodydd cyn apwyntiadau. Mae rhai pobl sydd ag awtistiaeth yn gallu ysgrifennu eu hanghenion a'u barn yn lle gorfod gofyn i eiriolwr siarad drostyn nhw. Mae bob amser yn well cynorthwyo person i ddysgu sut i fynegi ei farn ei hun yn yr hirdymor yn hytrach na defnyddio eiriolwr ond gallai gallu, oed a diddordeb wneud hynny'n anodd. Dylai'r rhai hynny sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer rhywun sydd ar y sbectrwm awtistiaeth a'i gynorthwyo fod yn barod i'w helpu i ddefnyddio cerddoriaeth, ffilm, lluniau, symbolau neu unrhyw ddull sy'n gweithio i'r unigolyn er mwyn ei alluogi i fynegi ei farn a deall y digwyddiadau gwneud penderfyniadau sy'n dylanwadu ar ei fywyd.

Eiriolaeth Dinasyddion

Ar gyfer oedolion fel rheol, ac yn cynnwys eiriolwr (gwirfoddolwr di-dâl weithiau) sy'n gweithio gydag unigolyn er mwyn darganfod beth yw ei farn a'i anghenion, ac yna'n siarad ar ei ran. Gydag eiriolaeth dinasyddion, mae'n hanfodol bod yr eiriolwr yn dod i adnabod yr unigolyn sydd ag awtistiaeth gan nad yw'r eiriolwr yn gwneud penderfyniadau ar ran person. Rhaid i'r eiriolwr allu cyfathrebu gyda'r person er mwyn darganfod beth yw ei farn ac mae'n debyg y bydd yn gweithio gyda'r unigolyn dros gyfnod maith. Mae eiriolwyr dinasyddion, fel y rhan fwyaf o eiriolwyr ffurfiol eraill, yn cael eu cefnogi a'u harwain fel rheol gan sefydliad eiriolaeth.

Eiriolaeth cyfnod byr

Mae hefyd yn cael ei alw'n eiriolaeth seiliedig ar broblem neu'n eiriolaeth argyfwng weithiau; mae eiriolwr cyflogedig neu wirfoddolwr yn gweithio gydag unigolyn am gyfnod byr er mwyn

diwallu angen penodol neu ddatrys problem benodol. Efallai y bydd angen y math hwn o eiriolaeth pan fydd rhywun sydd ag ASD yn wynebu newid sydyn neu argyfwng.

Eiriolaeth Grŵp

Mae hyn yn digwydd pan fo pobl sy'n defnyddio'r un gwasanaethau, neu sydd â diddordeb neu anhawster cyffredin yn dod at ei gilydd i fynegi eu barn ar y cyd. Mae hyn yn galluogi pobl i leisio barn ynglŷn â sut mae eu gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u rhedeg. Er bod y dull hwn wedi hen sefydlu ei hun ac wedi cael ei brofi mewn gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu neu salwch meddwl, nid yw'r model hwn bob amser yn un hawdd i bobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth ei ddefnyddio gan fod rhai'n cael anhawster i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp. Mae enghreifftiau yng Nghymru'n cynnwys cyngor ysgolion ar gyfer disgyblion sydd â syndrom Asperger mewn ysgol brif ffrwd a phlant ag ASD yn cymryd rhan mewn Bwrdd Diogelu Plant Iau, gan edrych ar fwlio a diogelu plant. Mae nifer cynyddol o grwpiau ar-lein ar gael hefyd, yn enwedig ar gyfer oedolion. Edrychwch ar-lein am The Autism Hub, sy'n hyrwyddo amrywiaeth a hawliau dynol, gan ganolbwyntio ar foeseg ac amrywiaeth fel yr egwyddorion arweiniol creiddiol; mae'r agweddau amrywiol yn cynnwys grymuso, eiriolaeth, derbyn ac edrych yn gadarnhaol ar bethau.

Eiriolaeth Cymheiriaid

Yn disgrifio perthynas eiriolaeth rhwng eiriolwr ar y sbectrwm awtistiaeth sy'n gweithio er mwyn cynorthwyo person arall ar y sbectrwm i leisio'i farn neu fynegi ei ddymuniadau a'i safbwynt. Un o fanteision eiriolaeth cymheiriaid yw y gallai'r eiriolwr fod â dealltwriaeth dda iawn o anawsterau a phrofiadau'r sawl y mae'n siarad ar ei ran, felly mae ymddiriedaeth a dealltwriaeth yn cael eu sefydlu'n gyflym rhwng y partneriaid eiriolaeth. Anfantais bosib yw bod rhai pobl sydd ar y sbectrwm yn cael anhawster i weld safbwynt rhywun arall, ac mae tuedd i dybio y bydd ar bobl eraill eisiau'r un pethau â hwy, neu eu bod yn credu ac yn gwybod yr un pethau â hwy. Mae perygl y bydd cymheiriaid yn siarad ar eu rhan hwy, yn hytrach nag ar ran yr unigolyn dan sylw. Gellir

goresgyn hyn drwy sicrhau bod gan y sefydliadau eiriolaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd fwy o bobl wedi cael hyfforddiant eiriolaeth cymheiriaid, a bod eiriolwr sydd ag ASD yn gallu datblygu sgiliau gwrando a phwyso a mesur a gadael ei agenda ei hun y tu allan i'r bartneriaeth eiriolaeth.

Eiriolwyr Proffesiynol

Mae eiriolwyr proffesiynol wedi cael eu hyfforddi a/neu eu cymhwyso ar gyfer y gwasanaeth y maent yn ei gynnig ac maent yn cael tâl am eu gwasanaeth. Nid ydynt yn ymwneud â bywyd y person y maent yn siarad ar ei ran mewn unrhyw ffordd arall fel arfer, ond mae ganddynt ddealltwriaeth a phrofiad o awtistiaeth sy'n eu galluogi i weithio'n llwyddiannus gyda'r grŵp hwn o blant ac oedolion, a siarad ar eu rhan.

Eiriolaeth Gyfreithiol

Mae eiriolaeth gyfreithiol yn cael ei chyflawni gan gyfreithwyr neu fargyfreithwyr hyfforddedig sy'n gallu cynrychioli pobl ar y sbectrwm yn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae'r eiriolwr cyfreithiol yn cynorthwyo'r unigolyn i ymarfer neu amddiffyn ei hawliau, ond mae'r math hwn o eiriolaeth ychydig yn wahanol i'r rhai uchod. Y sail ddamcaniaethol yn y maes cyfreithiol yw pennaf les yn ôl y gyfraith, nid pennaf les yr unigolyn.
Er enghraifft, gallai'r gyfraith weithio dan gyfarwyddyd na all gynorthwyo'r unigolyn i fynd am yr hyn y byddai ef yn ei ddewis, megis ffordd annibynnol neu unig o fyw.

Eiriolaeth heb gyfarwyddyd

Hwn yw'r dewis olaf ym maes eiriolaeth ac mae'n wahanol gan fod disgwyl i'r eiriolwr wneud mwy o benderfyniadau nag mewn eiriolaeth dan gyfarwyddyd. Bydd eiriolwyr yn ymgymryd ag eiriolaeth heb gyfarwyddyd pan fo unigolyn yn methu â rhoi cyfarwyddyd i berson arall siarad neu weithredu ar ei ran a phan nad yw'n gallu mynegi ei farn neu ei ddymuniadau'n glir mewn sefyllfa benodol. Mae'r eiriolwr yn gwneud sylwadau ar sail dymuniadau canfyddedig a damcaniaethol y sawl sydd ag ASD. Mae'n bwysig bod yr eiriolwr yn dod i adnabod y person, yn arsylwi ac yn pwyso a mesur yr hyn y mae'r person yn ei "ddweud" drwy ei ymddygiad a'i hwyliau, ac yn defnyddio'r wybodaeth a'r cyngor a geir gan bobl eraill sy'n ei adnabod yn

dda. Defnyddir y mesuryddion ansawdd bywyd a fyddai'n dderbyniol i'r rhan fwyaf o bobl, ynghyd â deddfwriaeth a safonau perthnasol mewn gofal cymdeithasol fel llinell sylfaen gan eu cymharu ag ansawdd bywyd y sawl y siaredir ar ei ran. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sbectrwm awtistiaeth yn hanfodol, gan na ddylem ddisgwyl y bydd ar bobl sydd ar y sbectrwm o reidrwydd eisiau neu angen y mesuryddion ansawdd bywyd derbyniol arferol, megis gwyliau, ffrindiau a gwaith (er bod llawer o bobl sydd ar y sbectrwm eu heisiau).

"The non-instructed advocate seeks to uphold the person's rights; ensure fair and equal treatment and access to services; and make certain that decisions are taken with due consideration for their unique preferences and perspective." (Henderson, R. 2007 t.7).

Astudiaeth achos:

Mae Jim yn byw mewn cartref preswyl gyda 14 o bobl eraill. Mae Jim yn gallu dweud ychydig o eiriau a defnyddio rhai arwyddion, ond nid yw'n gallu dweud wrth rywun arall beth mae arno'i eisiau. Mae teulu Jim a staff yn y cartref preswyl wedi sylwi ei fod yn hoffi'r band roc Aerosmith a'i fod yn mwynhau bod dan gysgod coed. Nid yw'n hoffi synau sydyn na grwpiau o bobl eraill. Mae teulu Jim a staff y cartref yn cytuno mai'r adeg y mae Jim yn fwyaf hapus yw pan mae allan yn y car: mae'n curo'i ddwylo ac yn canu gyda'r radio. Mae Jim yn cynhyrfu y rhan fwyaf o foreau gan nad oes digon o staff na digon o geir i fynd ag ef am dro bob diwrnod. Mae gweithiwr cymdeithasol Jim, y gweithwyr cymorth, rheolwr y cartref a'i deulu wedi trafod beth fyddai'n gwella ansawdd bywyd Jim; a fyddai'n bosib iddo symud i rywle lle mae llai o bobl eraill? A fyddai'n gallu mynd adref yn amlach? Beth am hyfforddi mwy o staff i ddefnyddio arwyddion a lluniau i gyfathrebu gyda Jim? Mae eiriolwr Jim yn treulio llawer o amser yn dod i adnabod Jim ac yn dweud mai'r peth pwysicaf iddo yw cael ei gar ei hun, gan ddefnyddio elfen symudoledd ei lwfans byw i'r anabl. Mae'n teimlo mai hyn fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf cadarnhaol i ansawdd ei fywyd.

Ni ddylid defnyddio eiriolaeth heb gyfarwyddyd oni bai fod pob dull arall posib o ddeall beth mae'r person yn ei gyfathrebu wedi ei ystyried a'i ddefnyddio. Yn ychwanegol at hyn, mae angen edrych ar alluedd unigolyn yn rheolaidd gan fod sgiliau pawb yn newid dros gyfnod, yn enwedig os oes cymhelliant. Er hyn, efallai y byddai'n briodol i bobl ar y sbectrwm awtistiaeth sydd ag anabledd dysgu ychwanegol ac sy'n methu â dweud wrth rywun arall beth mae arnynt ei eisiau neu ei angen.

Pam y byddai ar bobl sydd ag Awtistiaeth angen Eiriolaeth

Mae pobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth yn cael anhawster i wybod beth mae angen iddynt ei gyfathrebu i bobl eraill. Maent yn tueddu i dybio bod pobl eraill yn gwybod sut maen nhw'n meddwl ac yn teimlo, ac yn cymryd yn ganiataol bod pobl eraill yn meddwl ac yn teimlo'r un fath â hwy. Yn ychwanegol at hyn, efallai y byddant yn cael anhawster i ddeall y cysylltiad rhwng gweithredu a chanlyniadau. Efallai y bydd arnynt angen rhywun i helpu i egluro canlyniadau tebygol eu dewisiadau ac edrych ar opsiynau. Gall eiriolwr helpu'r person i edrych ar y dewisiadau a nodi'n glir wrth bobl eraill faint o annibyniaeth dewis y mae unigolyn yn dymuno'i gael mewn gwirionedd. Yn aml iawn, mae gan bobl ar y sbectrwm awtistiaeth flaenoriaethau na fyddem yn eu disgwyl.

Astudiaeth achos:

Mae Will yn 19 ac yn byw mewn fflat mewn tŷ sy'n cael ei rannu. Nid yw'n gallu cloi ei ddrysau a'i ffenestri ac mae trigolion eraill yn dod i mewn i fflat Will, yn benthyca'i eiddo ac yn defnyddio'i bethau. Mae'r sawl sy'n byw i fyny'r grisiau'n defnyddio cyffuriau, ac weithiau mae pobl fygythiol yn dod i gasglu arian neu werthu cyffuriau. Mae teulu Will, ei weithiwr cymorth a'i weithiwr cymdeithasol i gyd yn cytuno mai symud i fflat arall yw'r brif flaenoriaeth i Will. Fodd bynnag, mae gan Will fwy o ddiddordeb mewn cynilo i brynu camera digidol newydd er mwyn cael dilyn ei ddiddordeb mawr mewn ffotograffiaeth. Mewn cyfarfod i adolygu sefyllfa Will mae ei eiriolwr yn ei gynorthwyo i fynegi hyn yn ysgrifenedig, ac mae'n egluro pam y mae'r camera newydd mor bwysig i Will. Mae hyn yn galluogi Will a'i ffrindiau a'i gynorthwywyr i wneud cynllun sy'n rhoi sylw i'r angen am fflat arall a'r angen am gamera digidol.

Mae pobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth yn tueddu i ganolbwyntio ar fanylion, ac mae'n bosib nad ydynt yn gweld y "darlun mwy", felly'n aml iawn nid ydynt yn ymwybodol o'r gwahanol ddewisiadau sydd ar gael. Gall eiriolwr helpu i wneud hyn yn glir.

Gwyddom fod rhai pobl sydd ag awtistiaeth yn aros yng nghartref y teulu ymhell ar ôl yr oedran y mae'r rhan fwyaf o bobl yn symud ymlaen i gael rhyw gymaint o annibyniaeth. Efallai eu bod yn bobl agored i niwed a bod arnynt angen cymorth a diogelwch ychwanegol. Mae cyfle i ymgymryd â her, risg ac annibyniaeth yn hollbwysig i ddatblygiad a lles unigolion. Mae ar rai pobl angen cymorth eiriolwr i'w helpu i symud ymlaen i fywydau mwy annibynnol a phrofi'r risgiau a'r llwyddiannau personol sy'n gysylltiedig â bywyd oedolion.

Mae'n bosib y bydd ar rywun sydd ag ASD angen eiriolwr ar adegau pan fo dewis, newid neu argyfwng yn digwydd. Er mwyn helpu teuluoedd a chynorthwywyr, ceir enghreifftiau isod o adegau a sefyllfaoedd pan mae'n syniad da gofyn am eiriolaeth.

Pam y byddai ar bobl sydd ag Awtistiaeth angen Eiriolaeth

Mewn addysg, er mwyn canfod a chael mynediad at ddarpariaeth addysg sy'n diwallu anghenion yr unigolyn a gwneud y broses o symud o un ysgol i'r llall yn haws. Bydd un o bob pum plentyn a pherson ifanc sydd ag ASD yn cael eu gwahardd o'r ysgol rywbryd yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol (Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth 2000) a bydd arnynt angen cymorth eiriolwr mewn apeliadau, ac i ddatrys problemau yn ymwneud ag ymddygiad, gorbryder a gallu'r ddarpariaeth i ddiwallu eu hanghenion. Gall cludiant i'r ysgol ac adref fod yn broblem hefyd gan fod angen i yrwyr a hebryngwyr ddeall dulliau cyfathrebu ac anghenion synhwyraidd y person ifanc.

Pan fydd y ddarpariaeth addysg fwyaf priodol i'w chael mewn canolfan breswyl, a hynny efallai ymhell o'r cartref, mae'n bosib y

bydd angen eiriolwr i helpu'r plentyn neu'r person ifanc i fynegi ei ddymuniadau a'i anghenion.

Pan fo plentyn neu berson ifanc yn agored iawn i niwed oherwydd ei amgylchiadau, er enghraifft pan fydd yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, yn ystod prosesau amddiffyn plant (er mwyn cael addasiadau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ASD a'u galluogi i fynychu cyfarfodydd a chymryd rhan ynddynt) neu i helpu i ddatrys problemau yn ymwneud â chyswllt teuluol pan fo plentyn neu berson ifanc mewn gofal.

Yn ystod y cyfnod o newid o fywyd mewn ysgol i fywyd fel oedolyn, wrth symud ymlaen o gartref y teulu tuag at fwy o annibyniaeth a dod o hyd i waith a lle addas i fyw (ac i gael cefnogaeth mewn cyflogaeth weithiau). Efallai y bydd ar yr unigolyn angen cymorth eiriolwr i'w helpu i drafod y system fudd-daliadau ac i gael yr hyn y mae ganddo hawl iddo, i gael y cymorth a fydd yn ei alluogi i wneud ffrindiau a bod yn rhan o'r gymdeithas neu fanteisio ar wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau gwirfoddol.

I gael cymorth seicolegol priodol. Efallai y bydd angen eiriolwr i sicrhau bod hyn yn cael ei ddarparu â dealltwriaeth o safbwynt awtistiaeth ac elfennau synhwyraidd, cyfathrebol a gwybyddol y cyflwr, ac ag ymwybyddiaeth o broblemau iechyd meddwl sylfaenol.

Os yw'r person yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol

Nid oes tystiolaeth bod pobl sydd ag awtistiaeth yn fwy tebygol o gyflawni trosedd nag unrhyw grŵp arall mewn cymdeithas, ond mae tystiolaeth eu bod yn dod i gysylltiad â'r heddlu'n amlach fel tystion, dioddefwyr neu gyflawnwyr troseddau. Mae plant a phobl ifanc yn agored i niwed ac, o ganlyniad, yn cael eu diogelu yn yr amgylchiadau hyn. Mae'r diagnosis o awtistiaeth yn rhoi statws oedolyn agored i niwed i unigolyn sydd ag ASD yn y system cyfiawnder troseddol. Dylai hyn arwain at gymorth, gan gynnwys presenoldeb Oedolyn Priodol yn ystod cyfweliad a chamau eraill i ddiogelu'r person a sicrhau ei fod yn cael ei drin yn deg. Er mwyn

bod yn eiriolwr effeithiol yn yr amgylchiadau hyn mae angen bod yn gyfarwydd â'r system cyfiawnder troseddol a'r sbectrwm awtistiaeth. Gallai cymhwysedd, bwriad, amgylchiadau lliniaru ac edifeirwch i gyd fod yn faterion i'w hystyried.

Ar ôl cael ei gyhuddo o drosedd, gallai'r unigolyn sydd ag ASD gael ei archwilio gan seiciatrydd er mwyn penderfynu ynglŷn â'i gymhwysedd. Dim ond os bernir bod yr unigolyn yn gymwys i gynorthwyo'r broses o'i amddiffyn y gellir ei roi ar brawf. Mae'r cysyniad o fwriad yn sylfaenol i gyfraith Prydain ac mae penderfynu ynglŷn â bwriad yn aml yn hollbwysig pan fo achos cyfreithiol yn cael ei ddwyn yn erbyn rhywun sydd ag ASD. Yn wir, gan fod ymchwiliadau manylach yn cael eu gwneud i hanes unigolyn a'i ymddygiad, gall ymdrechion i benderfynu ynglŷn â bwriad arwain at ddiagnosis cyntaf o ASD mewn rhai achosion unigol.

Os yw unigolyn yn gallu rhoi adroddiad ffeithiol clir o'i weithredoedd, ond heb ymddangos yn edifar (gan fod amhariad ar y gallu i ddisgrifio emosiwn a theimlad mewn pobl sydd ag ASD) gallai hyn gael ei gamgymryd am fwriad. Mae ar yr eiriolwr angen gwybodaeth am yr unigolyn dan sylw ac am ddulliau gwybyddol a dulliau cyfathrebu pobl sydd ag ASD er mwyn gweithredu'n effeithiol ar ran y person hwn. Er nad yw awtistiaeth yn esgusodi nac yn rhyddhau rhywun o gyfrifoldeb troseddol, efallai y bydd angen i eiriolwr helpu i ddiogelu rhywun sydd ag ASD rhag collfarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gysylltiedig ag awtistiaeth yn unig, er enghraifft pan nad oes tystiolaeth arall o'r trosedd ar wahân i ddisgrifiad yr unigolyn o'i weithredoedd. Mae angen i eiriolwyr fod yn deg ac yn wrthrychol a gallu ymdrin â phob achos yn unigol.

Galluedd neu gymhwysedd meddyliol

Gall anghenion lles a chefnogaeth unigolion sydd ag awtistiaeth amrywio dros gyfnod gan ddibynnu ar eu sefyllfa. Efallai y bydd adegau yn ystod oes yr unigolyn, fel pawb arall, pan fydd yn methu â gwneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â'i fywyd. Gall eiriolwr helpu person sydd ag ASD i gynllunio ar gyfer y

rhain. Er enghraifft, gall rhywun sy'n cael cyfnodau o iselder difrifol o bryd i'w gilydd wneud penderfyniadau ymlaen llaw ynglŷn â'r math o driniaeth a chymorth yr hoffai eu cael.

Efallai hefyd y bydd problemau neu agweddau penodol ar fywyd oedolion na fydd unigolyn sydd ag awtistiaeth yn gallu gwneud penderfyniadau yn eu cylch. Weithiau mae'n amhosib gwneud gwaith ataliol, neu gall argyfwng annisgwyl godi. Ar gyfer y sefyllfaoedd hyn, cyflwynodd Deddf Galluedd Meddyliol (2005) rôl statudol yr Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol i gynorthwyo pobl sy'n methu â gwneud rhai penderfyniadau. Mae gan Awdurdodau Lleol a chyrff y GIG ddyletswydd i roi cyfarwyddyd i Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol gynorthwyo unigolyn os yw'n bodloni'r meini prawf a nodwyd yn y Ddeddf.

Rhaid rhoi cyfarwyddyd i Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol yn yr amgylchiadau isod:

- Lle bo penderfyniad i'w wneud naill ai ynglŷn â thriniaeth feddygol ddifrifol neu ynglŷn â newid llety.
- Lle nad oes gan yr unigolyn deulu neu ffrindiau agos i fynegi ei farn.
- Lle bo'r Penderfynwr wedi barnu nad oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw yn unol â'r asesiad o alluedd sy'n cael ei ddiffinio yn y Ddeddf.

Ewch i www.imcawales.org i ddarganfod pa sefydliadau yn eich ardal chi sy'n cynnig y gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol.

Eiriolaeth Lwyddiannus: rhwystrau ac atebion posib

Gall gymryd llawer o amser i ennill ymddiriedaeth rhywun sydd ag awtistiaeth a dod i'w adnabod yn iawn. Mae'n bwysig bod gan yr eiriolwr ddigon o amser a'i fod yn barod i ofyn am fframiau amser ac agendâu sy'n addas i'r plentyn neu'r oedolyn. Mae'n anodd dygymod â newidiadau annisgwyl a digwyddiadau sy'n cael eu canslo, felly ceisiwch sicrhau nad yw hynny'n digwydd. Rhag ofn

iddynt ddigwydd, ceisiwch baratoi ar gyfer yr annisgwyl a chael cynlluniau wrth gefn a lluniau ac amserlenni ar gyfer senarios eraill. Gallai rhai eiriolwyr gael anhawster i ddeall ac uniaethu â'r dulliau gweithredu a'r ffyrdd o feddwl ac amgyffred gwahanol iawn sydd gan unigolion awtistig. Hyd yn oed ar ôl sefydlu perthynas gefnogol, mae'n bosib y bydd yr unigolyn sydd ag ASD yn dal i gael cryn anhawster i wneud dewisiadau a phenderfyniadau, cysylltu ei weithredoedd posib â'r canlyniadau tebygol a gweld yr holl ddewisiadau sydd ar gael.

Dyma sut mae eiriolwr sydd â syndrom Asperger yn crynhoi'r ateb;

"Cael mwy o eiriolwyr wedi eu hyfforddi i weithio gyda phobl ar y sbectrwm, cael mwy o eiriolwyr sydd ar y sbectrwm, neu ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth i bob eiriolwr a allai ddod i gysylltiad â rhywun sydd ag ASD."

Beth mae angen i'r Eiriolwr ei wybod am y Sbectrwm Awtistiaeth

Fel eiriolwr yn gweithio gyda phlant neu oedolion awtistig, neu ar eu rhan, mae angen i chi wybod am feddyliau a chanfyddiadau awtistig. Mae pobl sydd ag awtistiaeth yn feddylwyr concrid ac maent yn cael anhawster â mannau llwyd ac ansicrwydd. Maent yn gweithio orau mewn fframwaith lle gellir rhagweld beth sy'n digwydd, a lle mae ymddygiad pobl eraill o'u cwmpas yn cael ei reoli. Mae angen i unigolion sydd ag ASD wybod beth i'w ddisgwyl gennych, beth yw eich swydd-ddisgrifiad, beth y gallwch ei wneud iddynt a beth na allwch ei wneud. Bydd angen i chi bennu llinellau amser realistig a nodau y gellir eu cyflawni.

Byddwch yn ymwybodol o oleuadau llachar, synau, arogleuon, lliwiau ac ysgogiadau cyffyrddol. Weithiau mae'r rhain yn cael eu cymysgu, felly gallai'r person amgyffred lliw penodol fel ysgogiad poenus, neu amgyffred bod gan rifau wead. Efallai y bydd yr unigolyn yn gweld pethau am bobl eraill yn anghymhellol, er enghraifft persawr neu sent eillio cryf, neu lais uchel. Gall y problemau amgylcheddol a rhyngbersonol hyn

effeithio ar lefelau straen y person ac, o ganlyniad, ar ei allu i gyfathrebu a deall. Siaradwch yn glir a dywedwch beth rydych yn ei feddwl; peidiwch â dyfalu, na defnyddio ffigurau ymadrodd, eironi, coegni neu ystyr cudd. Siaradwch yn arafach a byddwch yn barod i oedi er mwyn i'ch partner eiriolaeth allu ystyried yr wybodaeth ac ymateb i gwestiynau.

Efallai y bydd yn anodd i bobl sydd ar y sbectrwm awtistiaeth rannu diddordebau pobl eraill, ac yn aml iawn mae'n ymddangos nad oes ganddynt unrhyw empathi. Weithiau bydd angen i chi egluro pethau y byddech yn disgwyl y byddent wedi eu deall wrth reddf. Dyma i chi enghraifft syml iawn;

Rydych chi'n gofyn, "Tom, alli di gau'r drws?" ac mae Tom yn ateb "Gallaf" ond mae'r drws yn dal ar agor. Yn lle hynny dywedwch, "Tom, cau'r drws os gweli di'n dda."

Yn aml iawn mae gan bobl sydd ag awtistiaeth ddiddordebau arbennig y maent yn ymgolli'n llwyr ynddynt ac sy'n mynd â'u holl fryd. Gallwch ddefnyddio diddordeb o'r fath i gymell yr unigolyn i ymgysylltu a datblygu perthynas. Cynlluniwch ymlaen llaw ac ewch i weld ystafelloedd lle bydd cyfarfodydd neu gyfweliadau'n cael eu cynnal. Defnyddiwch luniau o'r lle ac o'r bobl fydd yno. Pennwch amseroedd dechrau a gorffen pendant ac, os oes angen, defnyddiwch luniau o wyneb cloc i ddangos hyn. Gwnewch yn siŵr bod y plentyn neu'r oedolyn yn gallu rhoi gwybod i chi, drwy symbol neu arwydd clir, neu ryw ffordd arall, pan fydd eisiau dweud "Dw i angen stopio rŵan". Aildrefnwch neu addaswch unrhyw agweddau ar y lleoliad a allai achosi anhawster i'r unigolyn, os yw hynny'n bosib. Ceisiwch ddarganfod pa wrthrychau, trefniadau rheolaidd neu symudiadau sy'n gallu cysuro'r person, a threfnwch ei fod yn gallu defnyddio'r rhain mewn sefyllfaoedd anodd. Efallai y bydd angen i chi wneud hyn hyd yn oed os nad yw'r gwrthrychau cysur a'r ymddygiadau'n briodol i oedran yr unigolyn neu i'r sefyllfa; mae'n bwysicach eu bod yn helpu'r unigolyn i deimlo'n ddiogel a digynnwrf.
Bydd angen i chi bwyso a mesur pethau'n ofalus ac addasu i ymddygiad newydd neu ddulliau newydd o gyfathrebu.

Cysylltiadau Defnyddiol a Deunydd Darllen Pellach

Cysylltiadau yng Nghymru

- Yn Ebrill 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun gweithredu ar gyfer awtistiaeth. Dyma'r cynllun gweithredu cyntaf o'i fath i'w gyhoeddi gan lywodraeth, ac o ganlyniad i'r strategaeth hon mae swyddog arweiniol lleol ar gyfer ASD wedi'i ddynodi ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Gallwch ddarganfod pwy yw eich swyddog arweiniol lleol ar gyfer ASD drwy gysylltu â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol leol neu drwy gysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) (ffôn: 02920 468600). Mae CLILC yn gartref i dri swyddog cymorth rhanbarthol ar gyfer ASD a fydd yn gallu rhoi'r wybodaeth sydd arnoch ei hangen i chi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael copïau rheolaidd drwy e-bost o gylchlythyr CLILC ar y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ym maes awtistiaeth a dulliau gweithredu ledled Cymru, drwy roi eich cyfeiriad e-bost i Swyddogion Cymorth Rhanbarthol CLILC ar gyfer ASD. (ASDinfo@wlga.co.uk).

- O ganlyniad i Gynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ASD mae llawer o ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth eraill yn cael eu cyhoeddi ar gyfer Athrawon, Meddygon, y System Cyfiawnder Troseddol ac ati.

- Mae Adnodd Awtistiaeth Cymru Gyfan (AWARE) yn darparu gwybodaeth ddwyieithog am ASD yng Nghymru. Yn yr hydref bob blwyddyn mae'n cynnal cynhadledd awtistiaeth ar-lein y byd, ac yn denu cyfraniadau gan rai o addysgwyr, clinigwyr ac ymchwilwyr mwyaf blaenllaw'r byd, ynghyd ag unigolion sydd ag ASD a rhieni. www.awares.org

- Rhwydwaith cenedlaethol o ddarparwyr eiriolaeth annibynnol yw Eiriolaeth Cymru. http://advocacywales.org

- Mae Advocacy Action Wales yn darparu ystod o wasanaethau eiriolaeth i oedolion agored i niwed yn Ne-ddwyrain Cymru. www.actionforadvocacy.org.uk
  Am ragor o wybodaeth am eiriolaeth heb gyfarwyddyd, gallwch ddarllen erthygl a ysgrifennwyd gan Rick Henderson yn 2007, 'Non-Instructed Advocacy in Focus', dan 'Articles and Resources' ar wefan Action for Advocacy.

Cysylltiadau y tu allan i Gymru

- Mae gwefan Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn cynnwys cyfarwyddyd a chyngor defnyddiol iawn. www.autism.org.uk (Dewiswch 'our services' o'r ddewislen ar y chwith, yna 'support for people with autism'.)
- Adam Feinstein, sy'n dad i ŵr ifanc ag awtistiaeth ac sy'n cael ei gyflogi gan Awtistiaeth Cymru, yw awdur "A History of Autism, Conversations with the Pioneers" a gyhoeddwyd gan Blackwells/ Wiley. Yn y llyfr hwn y ceir y darlun cywiraf hyd yn hyn o awtistiaeth, sut mae'n cael ei weld ar hyn o bryd ar hyd a lled y byd a pha ddulliau sy'n cael eu defnyddio gan lywodraethau a'r rhai sy'n gweithio gyda phobl sydd ag awtistiaeth. Mae'r llyfr hwn yn cael ei ystyried yn 'glasur' ym maes anableddau.

Mae Sefydliad Prydeinig Anableddau Dysgu yn ffynhonnell dda er mwyn cael gwybodaeth am eiriolaeth i bobl sydd ag anableddau dysgu. www.bild.org.uk

Mae gwefan The Autism Hub yn hyrwyddo amrywiaeth a hawliau dynol, a'r egwyddorion arweiniol creiddiol yw moeseg ac amrywiaeth. Mae'r agweddau amrywiol yn cynnwys grymuso/eiriolaeth, derbyn ac edrych yn gadarnhaol ar bethau. http://www.autism-hub.co.uk/

Awduron

Ysgrifennwyd y llawlyfr hwn sy'n cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gan

Mary Rendell, Swyddog Cymorth Rhanbarthol CLILC ar gyfer ASD – Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Gabrielle Eisele, Eiriolydd Arbenigol Annibynnol, Canolfan Windfall.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl ifanc a'r oedolion ar y sbectrwm awtistiaeth sydd wedi rhannu eu profiadau personol gyda ni a'n helpu i ysgrifennu'r llyfryn hwn.